Dogfen ir Cyhoedd

# R H A G L E N

## BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD A MÔN

## 22 EBRILL, 2016

**A G E N D A**

**1** **BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD A MÔN** (Tudalennau 1 - 8)

Partneriaeth
Gwynedd ac Ynys Môn
Anglesey and Gwynedd
Partnership

## BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD AS YNYS MÔN

## ANGLESEY AND GWYNEDD LOCAL SERVICE BOARD

| | |
|---|---|
| 10:00yb – 12:30yp<br><br>22/04/2016<br><br>Ty Menai, Parc Menai, Bangor | 10:00am – 12:30pm<br><br>22/04/2016<br><br>Ty Menai, Parc Menai, Bangor |

**RHAGLEN** **AGENDA**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1.** | Cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd 12 Chwefror, 2016 – **i'w cymeradwyo.**<br><br>Unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion – | Minutes of the meeting held on February 12, 2016 – **for approval.**<br><br>Any matters arising from minutes – | Cofnodion_12_2_16-Cym.docx<br><br>Minutes_12_2_16.pdf |
| **2.** | **Ymweliad Comisiynydd Pobl Hŷn** - cyflwyniad gan Ffion Johnstone | **Attendance of the Older People's Commissioner –** presentation by Ffion Johnstone | |
| **3.** | **Asesiad o Lesiant Lleol-** Diweddariad gan yr Is-Grwp | **Assessment of Local Wellbeing –** Update from Sub-Group | ITEM 3_ Assessment of Local Wellbeing.pc<br><br>EITEM 3_ Asesiad o Lesiant Lleol.pdf<br><br>EITEM ITEM 3_Wellbeing Matrix.xl |
| **4.** | **Rhaglen ddrafft ar gyfer y gweithdy a drefnwyd ar gyfer 24 Mai, 2016** | **Draft programme for the arranged workshop on 24 May, 2016** | I'w rannu yn ystod y cyfarfod<br><br>*To be shared during the meeting* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **5.** | **Blaenoriaethau Allweddol y BGLl –** Adroddiadau<br>• **BA 1 Pobl Hŷn**<br>• **BA2 Teuluoedd Cryfach**<br>• **BA 3 Cymunedau Cynaladwy/ Adfywio Cymunedol** | **LSB Key Priorities –** Reports<br>• **KPA 1 Older People**<br>• **KPA 2 Resilient Families**<br>• **KPA 3 Sustainable Communities/ Community Regeneration** | EITEM5_Iaith Gymraeg.pdf<br>ITEM5_KPA3_Welsh language.pdf<br>EITEM5_BA3_Rhanu Asedau.pdf<br>ITEM5_KPA3_Asset Sharing.pdf |
| **6.** | Trosglwyddo cyfrifoldebau'r BGLl i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Transfer LSB responsibilities to the Public Services Board | |
| **7.** | Cadarnhau trefniadau'r cyfarfod nesaf:<br>**24 Mai, 2016**<br>Ty Menai, Parc Menai | Confirm arrangements of next meeting:<br>**24 May, 2016**<br>Ty Menai, Parc Menai | |

## BWRDD GWASANAETHAU LLEOL YNYS MÔN A GWYNEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ebrill 2016**
**am 10am yn Nhŷ Menai, Parc Menai, Bangor**

**YN BRESENNOL:** Walis George, Grŵp Cynefin **(Cadeirydd)**
Geraint Hughes, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru **(Is-gadeirydd)**;
Iestyn Davies, Heddlu Gogledd Cymru;
Stephen Hughes, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru;
Ffion Johnstone, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr/ Iechyd Cyhoeddus Cymru;
Andy Jones, Gwasanaeth Prawf Cymru;
Siobhan Jones, Iechyd Cyhoeddus Cymru;
Y Cynghorydd Dyfed Edwards, Cyngor Gwynedd;
Dr Gwynne Jones, Cyngor Sir Ynys Môn
Sioned Rees, Llywodraeth Cymru;
John R. Jones, Medrwn Môn;
Y Cynghorydd Ieuan Williams, Cyngor Sir Ynys Môn;
Emyr Williams, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri;
Sian Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru

**Yn mynychu:** Janet Roberts, Cyngor Gwynedd
Llio Johnson, Cyngor Gwynedd
Arwel Ellis Jones, Cyngor Gwynedd
Rhian Bayley-Hughes, Cyngor Gwynedd
Nia Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru

**Yn mynychu ar gyfer Eitem 2:**

Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru,
Iwan Williams, Arweinydd Heneiddio'n Dda yng Nghymru yn y Comisiwn,
Caroline Turner, Cyngor Sir Ynys Môn,
Aled Davies, Cyngor Gwynedd,
Alwyn Jones, Cyngor Sir Ynys Môn,
Brian Jones, Cyngor Sir Ynys Môn
Christine Lynes, BIPBC,
Ruth Eley, Flynn and Eley Associates Ltd

**1. YMDDIHEURIADAU**

Gary Doherty, BIPBC,
Morwenna Edwards, (ar gyfer eitem 3),
Dilwyn Williams, Cyngor Gwynedd,
Ian Rees, Grŵp Llandrillo Menai,
Bethan Russell Williams, Mantell Gwynedd,
Simon Smith, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Shân Morris, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

**2. CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a'r rheini oedd yn mynychu'r cyfarfod yng nghyswllt eitem 3.

**3. PRESENOLDEB COMISIYNYDD POBL HŶN CYMRU**

Mynychodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'r cyfarfod er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o'r gwaith a wneir gan y BGLl ac er mwyn sicrhau y bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) y dyfodol yn adlewyrchu anghenion, pryderon a blaenoriaethau pobl hŷn. Defnyddiwyd yr ymweliad ymhellach i roi gwybod i'r BGLl am y Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru a sut all y Bwrdd gefnogi pobl hŷn yn well drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015.

Cyflwynodd Ffion Johnstone fanylion y cynnydd a wnaed ar Brif Faes Blaenoriaeth 1 y BGLl - Pobl Hŷn, i'r Bwrdd. Nodwyd y pwyntiau isod:

- Mae'r agenda Heneiddio'n Dda yn hanfodol i sicrhau bod Pobl Hŷn yn medru parhau i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt.
- Bydd anghenion, pryderon a blaenoriaethau pobl hŷn yn cael eu diwallu'n benodol drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
- Mae ymgysylltiad â phobl hŷn ynghylch gwasanaethau cyhoeddus wedi'i adnabod fel blaenoriaeth.

**PENDERFYNWYD**

- Nodi bodlonrwydd y Comisiynydd Pobl Hŷn gyda'r cynnydd a wnaed dan PFB1.

**4. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 12 CHWEFROR 2016**

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2016 yn gofnod cywir o’r trafodaethau.

**5. PRIF FLAENORIAETHAU'R BGLl - diweddariadau**

**5.1 Prif Faes Blaenoriaeth 2 - Creu Teuluoedd Gwydn:**

Atgoffodd Llio Johnson yr aelodau fod y flaenoriaeth hon wedi'i throsglwyddo i ffrwd gwaith Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol.

**PENDERFYNWYD**

Cytunodd y Bwrdd gyda chynnig Siobhan Jones i gyflwyno adroddiad i'r Bwrdd i ystyried p'un a ddylai mater gordewdra mewn plentyndod ddod yn lle PFB2 yng nghyfarfod nesaf y BGC oedd i'w gynnal ym mis Mehefin 2016.

**5.2 Prif Faes Blaenoriaeth 3 – Cymunedau Cynaliadwy / Adfywio Cymunedau:- YR IAITH GYMRAEG MEWN GWASANAETHAU CYHOEDDUS:**

Cyflwynodd Arwel Ellis Jones adroddiad cynnydd i'r Bwrdd, a nodwyd y pwyntiau a ganlyn:

- Mae'r grŵp wedi cytuno i oedi â'r gwaith er mwyn rhoi ystyriaeth briodol i ba feysydd y dylai ganolbwyntio arnynt. Ystyrir y dylid blaenoriaethu lefel y ddarpariaeth o wasanaethau iaith Gymraeg i drigolion ac y dylai dderbyn mwy o sylw.
- Gwnaed cais i aelodau'r Grŵp Gweithleoedd, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r BGLl, enwi uwch swyddog o fewn eu sefydliadau i fynychu Bwrdd Prosiect i asesu i ba raddau y gall eu sefydliadau ymrwymo i'r maes gwaith hwn. Mae'r ymateb i'r cais hwn am wybodaeth wedi bod yn siomedig.
- Dymuna'r grŵp wybod a yw'r Bwrdd yn barod i ymrwymo i safon gyson ar draws gwasanaethau cyhoeddus ym Môn a Gwynedd.

**PENDERFYNWYD**

- Gofynnir i aelodau'r Bwrdd, sef Prifysgol Bangor, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Grŵp Llandrillo Menai ymrwymo i ddarparu enwau ar gyfer y cyfarfod cychwynnol hwnnw a fyddai'n gosod cyfeiriad y prosiect.
- Rhoddodd aelodau'r Bwrdd eu cefnogaeth mewn egwyddor i anelu am safon gyson ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, ond gan nodi y bydd sefydliadau yn dechrau o lefelau gwahanol.

**5.3 Prif Faes Blaenoriaeth 3 – Cymunedau Cynaliadwy / Adfywio Cymunedau: RHANNU ASEDAU:-**

Cyflwynodd Geraint Hughes adroddiad cynnydd i'r Bwrdd, a nodwyd y pwyntiau a ganlyn:

- Roedd gwaith sgopio cychwynnol yn cael ei wneud gan bartneriaid i adnabod asedau presennol a fydd yn cael eu gwerthu neu eu rhoi ar brydles.
- Wedi cwblhau'r gwaith sgopio, cynigir adnabod ffordd o alluogi pob sefydliad i rannu anghenion asedau presennol a rhai'r dyfodol gyda'i gilydd er mwyn sicrhau y gwneir defnydd addas o'r eiddo sydd ar gael.

**6. ASESIAD O LESIANT LLEOL**

Cyflwynodd Llio Johnson adroddiad cynnydd i'r Bwrdd, a nodwyd y pwyntiau a ganlyn:

- Mae is-grŵp i arwain ar y gwaith o grynhoi'r asesiad lleol wedi'i sefydlu ac fe gyfarfu ar 4 Mawrth 2016 gyda chynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Gwasanaeth Tân ac Achub, Prifysgol Bangor, y Trydydd Sector ac Iechyd Cyhoeddus Cymru a bydd cynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru a'r Bwrdd Iechyd yn mynychu'r cyfarfod nesaf sydd wedi'i drefnu a gynhelir ym mis Mai 2016.
- Bydd y tîm Ymchwil a Dadansoddeg yng Nghyngor Gwynedd yn darparu'r man cychwyn o adnabod y dangosyddion a llenwi'r matrics llesiant.
- Mae'r Uned Partneriaethau'n casglu gwybodaeth o ymgynghoriadau lleol.
- Bydd yr is-grŵp yn ystyried y Dangosyddion Cenedlaethol - mae Llywodraeth Cymru yn glir na fydd Byrddau unigol yn cael eu mesur yn erbyn y dangosyddion hyn ond byddant yn cael eu cynnwys yn yr Asesiad Lleol os yw'r is-grŵp wedi'u hadnabod nhw fel dangosyddion *lleol.*
- Derbyniwyd grant o £45,000 oddi wrth Lywodraeth Cymru tuag at baratoi'r Asesiad Llesiant Lleol - bydd y grant hwn yn cael ei rannu rhwng y pedwar Bwrdd yng ngogledd Cymru. Mae rheolwyr Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru yn cyfarfod i baratoi cynllun project i'r grant. Mae Cyngor Conwy wedi'i adnabod fel yr awdurdod a fydd yn rheoli'r grant ar ran y pedwar Bwrdd.

**PENDERFYNWYD**

- Bydd yr is-grŵp yn cyfarfod ar 18 Mai 2016 i drafod a chytuno ar ddangosyddion drafft - i'w rhannu ddiwedd Mai er mwyn cychwyn trafodaethau yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mehefin 2016.

**7. RHAGLEN DDRAFFT AR GYFER Y GWEITHDY A DREFNWYD**

Rhannodd Llio Johnson raglen ddrafft ar gyfer y gweithdy a drefnwyd gydag aelodau'r Bwrdd, ar 24 Mai 2016. Bydd aelodau'r Bwrdd yn derbyn pecyn gweithdy bythefnos cyn y cyfarfod er mwyn caniatáu i aelodau'r Bwrdd gael trafodaethau mewnol ymlaen llaw.

**PENDERFYNWYD**

- Aelodau'r Bwrdd i gysylltu â Llio gydag unrhyw sylwadau/ awgrymiadau/ diwygiadau.
- Holl aelodau'r Bwrdd i drafod unrhyw faterion yn fewnol o fewn eu sefydliadau eu hunain cyn cychwyn y gweithdy ar 24 Mai 2016.
- Sioned Rees i roi adborth i'r Bwrdd ar hawliau pleidleisio.

**8. TROSGLWYDDO CYFRIFOLDEBAU BGLI I'R BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS**

Nodwyd mai hwn oedd cyfarfod olaf Bwrdd Gwasanaethau Lleol Môn a Gwynedd cyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddechrau ym mis Mai 2016.

Diolchodd y Cadeirydd i holl aelodau'r BGLl am eu hymrwymiad yn ystod ei gyfnod yn Gadeirydd y BGLl.

**9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD** nodi manylion y trefniadau a wnaed i gynnal gweithdy ar 24 Mai 2016 am 1pm yn Nhŷ Menai, Parc Menai, Bangor, Gwynedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10pm

This page is intentionally left blank